Hawl i gynnig gofal plant ar gyfer wythnosau'r gwyliau yn ystod gwyliau'r haf

Bydd Cynnig Gofal Plant yn cynnig 30 awr yr wythnos o ofal plant ac addysg gynnar wedi'i ariannu i rieni sy'n gweithio a chyda phlant 3-4 oed, hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Bydd yn ystod y tymor yn cael ei ystyried fel 39 wythnos gan olygu y bydd y 9 wythnos arall o'r cynnig 48 wythnos yn cael ei ystyried fel amser tu allan i'r tymor neu 'ddarpariaeth gwyliau'. Yn ystod y ddarpariaeth gwyliau 9 wythnos bydd plant cymwys yn derbyn 30 awr o ofal plant.

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn nodi pa rai o'r 14 wythnos heb fod yn amser y tymor sydd wedi eu dynodi fel y 9 wythnos o ddarpariaeth gwyliau er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i rieni mewn gwahanol swyddi fel yr unigolion hynny sy'n gorfod gweithio dros yr haf ac yn ystod gwyliau'r Nadolig. Fodd bynnag ni fydd rhieni yn gallu 'ymestyn' eu hawl ar draws wythnosau neu drosglwyddo unrhyw oriau heb eu gweithio ar draws wythnosau.

Gweler yr hawl i wyliau pro-rata **9 wythnos**:

Mae plentyn sy'n gymwys i dderbyn y cynnig am **dri thymor** gyda'r hawl i **9 wythnos** o ofal plant ar gyfer wythnosau yn ystod gwyliau'r haf.

Mae plentyn sy'n gymwys i dderbyn y cynnig am **ddau dymor** gyda'r hawl i **6 wythnos** o ofal plant ar gyfer wythnosau yn ystod gwyliau'r haf.

Mae plentyn sy'n gymwys i dderbyn y cynnig am **un tymor** gyda'r hawl i **3 wythnos** o ofal plant ar gyfer wythnosau yn ystod gwyliau'r haf.

Mae plant wedi'u geni yn nhymhorau'r hydref a'r gwanwyn o bosib yn gymwys i dderbyn y cynnig am fwy na blwyddyn, mewn achosion o'r fath bydd dyraniad newydd o ddarpariaeth gwyliau yn cael ei roi am weddill yr amser os ydyn nhw'n gymwys i dderbyn y cynnig ar ddechrau'r ail flwyddyn.

Noder, unwaith y bydd plentyn yn cychwyn addysg llawn amser ar ôl eu pen-blwydd yn 4 oed (mis Medi ar ôl eu 4^{ydd} pen-blwydd) nid oes ganddynt yr hawl i'r cynnig gofal plant.